YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 37. RHIF 12 MAI 2016 50c

# Cinio Gŵyl Ddewi Cymry Lerpwl



*Bwrdd y Cantorion (Anne M. Jones, R. I. Griffith a Eryl Dooling)*



*Y Neuadd yn hardd yn Woolton*



*Dr. D. B. Rees a Winston Roddick, QC, y Gŵr Gwadd*



*Trafod dosbarth y dysgwyr*

*isod: Y Gŵr Gwadd yn clymu stori'r Nawddsant a chyfleon ein hoes*





*Ted Clement Evans a Dr. Pat Williams*



*Gwen a Carys o Wavertree*

*Lluniau: Dr. John G. Williams*

## YN Y RHIFYN HWN:

COFFÂD I
EDNA HUMPHREY THOMAS,
ALUN HOWELL EVANS
ELIZABETH WINIFRED MORRIS
TARO POST
Newyddion o Bethel, Seion, Penbedw, Manceinion.
Gwasanaeth Ordeinio.

Golygyddol

# Gormod o Berygl - Peidiwch Aros Adref – *gan D. Ben Rees*

Y mae Dydd Iau, 23 Mehefin, 2016 ar y gorwel, diwrnod tyngedfennol i ddyfodol Prydain, ac y mae yr argoelion yn dweud ei bod hi yn hynod o agos ar hyn o bryd. Gwyddom fod y Blaid Doriaidd wedi ei rhannu yn ddwy a go brin fod gobaith cyfannu hynny gan fod y garfan sydd am adael Ewrop wedi ei cyfareddu gan y gobaith hwnnw. Meddylier am Iain Duncan Smith. Oddi ar y diwrnod cyntaf y bu yn y Tŷ Cyffredin yn 1992 y mae Ewrop wedi bod yn bwysig iddo. Dyna ei fara beunyddiol. Nid oes ganddo amynedd gyda biwrocratiaeth Ewrop. Mae gwledydd y Cyfandir yn lyfethair i Brydain. Felly y mae carfan dda am adael. Yng Nghymru, y mae'r mwyafrif, rhyw 55% o'r boblogaeth am aros yn Ewrop a'r gweddill am adael (Gwelwch lythyr Mr. Ken Williams). Deallaf fod y sefyllfa yn yr Alban dipyn yn well, wel 8 y cant yn well. Y mae 63% am aros a 37% am adael yr Undeb Ewropeaidd.

Ar lannau'r Mersi a Manceinion, er fod y Blaid Lafur yn gryf, nid yw y mwyafrif am aros yn Ewrop, yn bennaf oherwydd yr ymfudo o wledydd Ewrop i Brydain. Pan gofiwn fod dros filiwn a hanner o drigolion gwlad Pwyl wedi dod i Loegr gallwn ddeall yr ofn sydd mewn trefydd fel Lincoln a Boston lle y clywir cymaint o Bwyleg ar y strydoedd, a bellach ceir siopau sydd yn gwerthu bwydydd o'r wlad honno.

Y mae'r ifanc, rhwng deunaw a 34 oed, hefyd yn fwy tebygol o bleidleisio i adael, ond mae'r pensiynwyr at ei gilydd (ar wahân i'r rhai sydd wedi ymaelodi yn y blaid UKIP) yn debygol o ddyheu am gael aros yn hytrach na gadael. Un peth sy'n sicr mae hi'n hynod o ddiddorol a hoffwn yn fawr weld telediad o ddadl rhwng David Cameron a Boris Johnson ar y pwnc. Nid oes sôn fod hynny i ddigwydd. Dadl emosiynol yw hynny yn y pendraw yn hytrach na dadl resymegol, a dyna pam ei bod hi bron yn gyfartal yn y polau piniwn.

# Fy Ateb i 'Pam y Golygydd'

Rwy'n mynd i geisio ateb yr her a roesoch i ddarllenwyr yr *Angor* yn y 'pam' sef eich Golygyddol yn rhifyn Mawrth 2016 o'r *Angor*.

Yn wir "pam, o pam yw hi o hyd yn rhywle," ac felly y mae hi wedi bod ers dyddiau Adda yn yr ardd, am wn ni. Nid wyf yn mynd i geisio esbonio pam fod yr enghreifftiau yr ydych yn cynnwys fel ag y maent.Yr unig beth rwyf yn ymfalchïo ynddo yw bod 'na bobol yn y byd sydd yn enwedig gan fod y cwestiwn yn un anodd ac yn mynd yn erbyn y rhai sy'n gweld ei hunain yn fwy pwerus. Mae gen i ddiddordeb mewn barddoniaeth a chaneuon Cymraeg ac rwyf am gynnig ychydig mwy o 'pams' syn tarddu o'r diddordeb hwnnw.

Mae'r cwestiwn yn cael ei ofyn er mwyn sicrhau cyfiawnder, neu i sicrhau fod y ffordd gywir neu fwy synhwyrol yn cael ei ddilyn ac fel cynrychiolydd ar ran yr Undeb Llafur rwyf yn wastad yn gorfod gofyn y cwestiwn.

Mae cân adnabyddus Dafydd Iwan yn crynhoi llawer o fy nghredoau, enwedig yn y pennill olaf, a mae'r cytgan yn ein hatgoffa i beidio â gofyn cwestiynau gwirion a dibwys.

**PAM FOD EIRA'N WYN**

*Pan welaf gwaith y glöwr, a'i gwaed ar y garreg las,*
*Pan welaf lle bu'r tyddynnwr yn cribo gwair i'w dâs,*
*Pan welaf bren y gorthrwm am wddf y bachgen tlawd,*
*Rwy'n gwybod bod rhaid i minnau sefyll dros fy mrawd.*

*Rwy'n gwybod beth yw rhyddid, rwy'n gwybod beth yw'r gwir*
*Rwy'n gwybod beth yw cariad, at bobol ac at dir.*
*Felly peidiwch â gofyn eich cwestiynnau dwl,*
*peidiwch edrych arna'i mor syn*
*Dim ond ffwl sydd yn gofyn pam fod eira'n wyn.*

Mae 'na hefyd adegau pan mae'n ymddangos nad oes unrhyw ateb i'r cwestiwn fel y gwelir yn cân Tony ac Aloma.

**WEDI COLLI RHYWUN SY'N ANNWYL**

*Wedi colli rhywun sy'n annwyl,*
*Y cwestiwn gan bawb ydyw pam,*
*Ond cyn gweld gwerth mae'n rhaid colli,*
*Ar cost o cael ateb yw cam.*

Ar nodyn ychydig yn ysgafnach mae'n rhaid i mi gynnwys un o fy hoff ganeuon gan Joseph Parry.

**PAHAM MAE DICTER, O MYFANWY**

*Paham mae dicter, O Myfanwy,*
*Yn llenwi'th lygaid duon di?*
*A'th ruddiau tirion, O Myfanwy,*
*Heb wrido wrth fy ngweled i?*
*Pa le mae'r wên oedd ar dy wefus*
*Fu'n cynnau 'nghariad ffyddlon ffôl?*
*Pa le mae sain dy eiriau melys,*
*Fu'n denu'n nghalon ar dy ôl?*

Yr olaf o'm henghreifftiau yw'r gerdd hon gan T. Llew Jones, ac fel yr awdur efallai mai angen i ni ofyn y cwestiwn ohonom ni ein hunain weithiau.

**PAM?**

*Pam y mae'r lleuad weithiau'n llawn,*
*Ac weithiau fel cryman tenau iawn?*

*Pam y mae'r wylan sy'n hedfan fry*
*Mor rhyfeddol o wyn – a'r frân mor ddu?*

*Pam mae sgyfarnog y rhos mor chwim,*
*A'r crwban bron methu â symud dim?*

*Pam mae dŵr y nant mor glir â'r gwydr,*
*A dŵr yr afon fawr mor fudr?*

*Pam y mae dail y gwanwyn mor wyrdd,*
*A dail yr hydre'n frown hyd y ffyrdd?*

*A pham y mae cynffon gan ambell gi,*
*A dim gan un arall, dwedwch i mi?*

*Mae 'na gymaint o bethau od yn y byd –*
*Maen nhw'n gwneud i ni holi – holi o hyd.*

*Ond dyma'r cwestiwn olaf yn awr,*
*Ac yn wir i chi – mae e'n gwestiwn mawr . . .*

*Pam rwyf fi weithiau'n dda a charedig,*
*Ac weithiau'n ddrwg ac yn felltigedig?*

**David Williams (gynt o Karslake Road, Lerpwl).**

*Ysgrif Goffa*

# Alun Howell Evans, Crosby

**(1928-2016)**



**Syfrdanwd ni ar Nos Lun, 29 Chwefror i glywed am farwolaeth sydyn Alun H. Evans yn ei gadair ac yn ei gartref yn Cambridge Road, Crosby yn 87 mlwydd oed. Cawsom ei gwmni ef a'i ferch Susan yn oedfa bore Sul Capel Bethania, yn Eglwys Crist, Crosby Road South y diwrnod cynt. Yr oedd yn ôl ei arfer yn drwsiadus ei wisg ac yn siaradus, yn meddu ar gymaint o hanesion Cymry Gogledd Lerpwl.**

**Mab ydoedd i Winifred a Howell Evans, aŵyr i Hugh Evans, Cwm Eithin, sylfaenydd Gwasg y Brython, Stanley Road. Ganwyd ef ar 26 Awst 1928 yn 21 Wadham Road, Bootle ond symudwyd pan oedd yn rhai misoedd oed i Crosby. Addysgwyd ef yn Ysgol Gynradd St. Lukes yn Hallsall Street, Crosby, Ysgol Baratol Holyat, ac yna i Ysgol y Bechgyn Merchants Taylor. Pan ddaeth y rhyfel anfonwyd ef at deulu yn y Sarnau, ger y Bala, a derbyniodd addysg yn Ysgol Ramadeg y Bala, a dod i nabod llu o blant o'r un anian ag ef ei hun. Yno y daeth i adnabod Kity Haf a ddaeth yn ddiweddarach yn wraig iddo. Dychwelodd i Lerpwl yn 1944 i weithio fel prentis yng nghwmni ei dad a'i ewyrthod, Hugh Evans a'i Feibion. Teithiai ddau ddiwrnod yr wythnos i Adran Argraffu Coleg Arlunio Lerpwl (Liverpool College of Art) lle y dysgai y grefft o gysodi ac argraffu. Bu'n rhaid iddo yn 1946 fynd i'r Lluoedd Arfog ac ymunodd gyda'r Awyrlu fel *flight mechanic airframe/rigger.* Manteisiodd yn 1949 cyn cwblhau gwrs yng Ngholeg Technegol Twickenham yn Adran Argraffu. Ac felly, ailymunodd â chwmni Hugh Evans a'i Feibion yn 1950, a phenodwyd ef yn 1952 i arolygu y gwaith cysodi. Yn y flwyddyn honno y priododd (6 Rhagfyr 1952) gyda Kity Haf a symud i fyw i Cambridge Road, ei gartref am weddill ei ddyddiau. Ganwyd iddynt fab David a dwy ferch Gwenda a Susan, a chafodd fudd a hyfrydwch yn ei magwraeth a'i cwmni ar hyd y blynyddoedd.**

**Yn 1956 fe'i penodwyd yng ngofal yr argraffu a'r swyddfa a'r gwerthiant. Yr oedd Gwasg y Brython yn cyhoeddi llu o lyfrau Cymraeg yn ogystal â Rhaglen y Dydd Eisteddfod Genedlaethol a'r Cyfansoddiadau a'r Beirniadaethau. Golygai hyn gryn gyfrifoldeb arno, yn cario llwythi o lyfrau i'r Babell ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol. Daeth i adnabod yn dda awduron y wasg, beirdd, fel Cynan a llenorion fel E. Tegla Davies. Yr oedd hi'n bleser ei glywed ef yn adrodd yr hanesion a gan fod ganddo gof mor eithriadol mi fedrai dynnu darlun byw iawn fel y gwelwyd yn ei gyfweliad yng Ngŵyl y Cyhoeddwyr yn 2013.**

**Apwyntiwyd ef yn Gyfarwyddwr Gwasg y Brython ym Medi 1962 ac yn Gyfarwyddwr Gweithredol (Managing Director) o Medi 1967 hyd i'r wasg gau'r drysau yn 1977. Deuthum i'w adnabod yn dda iawn yn y cyfnod hwn gan fy mod trwy Cyhoeddiadau Modern wedi argraffu rhai llyfrau yn argraffdy Hugh Evans. Yr oedd ef a'i gyfnither Miss Bronwen Evans yn gyfrifol am yr holl agweddau o'r cwmni cyhoeddi.**

**Derbyniodd nifer fawr o Gymry Cymraeg swyddi yn yr argraffdy ac yr oedd graen ar y cynnyrch. Yr oedd Alun yn effeithiol yn ddibynadwy, ac yn fedrus, yn ei waith ac o 1977 hyd ei ymddeoliad yn 1993, a bu yn gyflogedig gyda Mawdsley Reed Cyf a gyda A. P. Printers lle yr awn yn gyson i brynu oddi wrtho amlenni a phapur ac ati. Bu yn flaenllaw ym maes argraffu, Llywydd *Liverpool and District Printing Industries Association* (1971-73).**

**Rhoddodd o'i orau i gapel Cymraeg Waterloo o'i blentyndod ac yn y 23 mlynedd diwethaf i gapel Bethania. Gofalodd yn dyner am ei briod yn ei gwaeledd o bum mlynedd, a mwynhaodd ei deithiau at ei ferch Gwenda a Tim Collier yn Ne Cymru a mwynhau cwmni ei ŵyr a'r ddwy wyres. Bu colli ei briod yn 2012 ar ôl 60 mlynedd o fywyd priodasol yn anodd ond gyda gofal ei ferch Susan a'i fab David daliodd i ymlwybro i'w gapel. Bydd colled fawr ar ei ôl.**

**Cynhaliwyd yr arwyl ar 11 Mawrth yn Eglwys Crist ac Amlosgfa Thornton a daeth cynulleidfa deilwng i dalu gwrogaeth i ŵr dawnus.**

***D. Ben Rees***

# *CYNGERDD CORAWL CYMRY LERPWL*

***'If music be the food of love, play on.'***

Dyma frawddeg adnabyddus o ddrama *Twelfth Night* gan William Shakepeare, un o feirdd mwyaf Lloegr a fu farw 400 mlynedd yn ôl. Cafwyd cyngerdd i ddathlu ei fywyd gan Undeb Gorawl Cymry Lerpwl ar ddechrau mis Mawrth. Roedd yn gyngerdd ardderchog a oedd yn gysylltiedig a gwaith y bardd fel campweithiau Vaughan Williams 'In Windsor Forest' a 'Serenade to Music' sydd yn seiliedig ar y dramau 'The Merry Wives of Windsor' a 'Merchant of Venice'. Clywsom gerddoriaeth y byddai Shakepeare yn gyfarwydd ag ef fel y 'madrigal'. Cafwyd cyfraniadau amhrisiadwy gan Ian Watson, fiolinydd dawnus, a dwy ferch, Olivia a Holly, oedd yn gwisgo yn nillad cyfnod Shakepeare ac yn adrodd darnau o'i waith. Noson gyda pherfformiadau amrywiol ond safonol gan pawb.



***Olivia Whittaker yn derbyn cymeradwyaeth y gynulleidfa***

Newyddion o

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Gwelwn le Alun H. Evans, Crosby yn wag yn ein hoedfaon, bu yn un o'n cefnogwyr, ei wreiddiau yn ddwfn iawn yn y cylch. Ef oedd y drydedd genhedlaeth o deulu Gwasg y Brython i ymlwybro i gorlan y Cymry. Ei rieni yn Waterloo a'i daid Hugh Evans, Cwm Eithin yng nghapel Stanley Road, Bootle.

Braf oedd clywed Mrs Pam Macnamara a Mrs Elin Boyd yn cymeryd rhan yn raenus yn Oedfa Gŵyl Ddewi. Gwnawn yn fawr o'r oedfaon undebol a gynhelir ryw ddwywith y flwyddyn yn ein plith. Bu Mrs Marian Lyons yn ddigon bregus am rai wythnosau ond bellach da ei gweld yn atgyfnetthu. Methodd Mrs Meinwen Rees oherwydd gwaeledd a chwarae'r offeryn y Sul o'r blaen ond bwriada fod yn ein plith yn mis Ebrill. Y mae ein cymdeithasu yn berarogl inni a diolch am dderbyn copi o'n cylchlythyr daufisol sydd yn llawn newyddion.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Cawsom ein Cinio Gŵyl Ddewi gyda Chymdeithas Lenyddol Bethel ar nos Sadwrn, Chwefror 27ain yng nghlwb golff Woolton. Y gŵr gwadd oedd Winston Roderick QC, Comisiynydd yr Heddlu yng Ngoledd Cymru, gŵr a fu ar un amser yn heddwas gyda Heddlu Lerpwl yn ardal Allerton a Wavertree. Roedd pawb wedi mwynhau y bwyd ardderchog a'r cyfle i sgwrsio. Diolch i Mrs Lilian Coulthard a Mrs. Gwenfyl Bain am y paratoadau.

Ar yr ail nos Fawrth ym mis Mawrth cawsom ddarlith gan Dr. Pat Williams ar y testun 'Y Gyfraith fel drych y gymdeithas'. Sôn yr oedd am gyfraith Hywel Dda. Yr oedd Hywel yn fab i Frenin Saisyllwng. Fe anwyd Hywel tua'r flwyddyn 880 ac roedd yn frenin Saisyllwng erbyn y flwyddyn 900 ac yn frenin Dyfed erbyn y flwyddyn 924. Daeth hefyd yn Dywysog dros y rhan Fwyaf o Gymru wedyn. Bu farw yn y flwyddyn 949 neu 950. Nid Hywel a ysgrifennodd y Cyfreithiau enwog. Galwodd ar nifer o gyfreithwyr i ddod i Hen Dŷ Gwyn ar Daf i drafod ac i ysgrifennu y Cyfreithiau. Mae'r ddogfen gyfreithiol gynharaf yn y Gymraeg i'w gweld yn Nghadeirlan Caerlwytgoed (Lichfield) wedi ei hysgrifennu ar ymyl tudalennau Efengylau Luc a Marc yn llyfr St. Chad. Anghydfod tir oedd yma ac fe fu rhaid i'r euog dalu'r iawndal mewn



*Dyma ddarlun o'r Tocsedos Blêr yng nghwmni Mrs Mair Rees Jones, Y Barch, Glenys Wilkinson a Mrs Iola Edwards ar achlysur Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas Cymry Birkenhead.*

gwartheg. Gan fod y dydd Mawrth yma yn Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched diddorol oedd clywed am rhai o'r cyfreithiau a oedd yn gysylltiedig a merched . Yn ystod y cyfnod yma 'roedd statws merched yn is na statws dynion. Nid oedd merched yn cael siarad drostynt eu hunain mewn llys barn. Yng nghyfraith Hywel roedd merch yn cael ei magu 'wrth noe ei thad' sef rhaid oedd iddi aros gartref lle 'roedd y teulu yn medru cadw llygaid arni. Nid oedd yn cael cyfathrachu a dynion a'r teulu oedd yn dewis gŵr iddi. Yn yr adeg yma nid oedd dim crefydd yn gysylltiedig â phriodas - gweithred fasnachol oedd priodas ac felly roedd yn hawdd cael ysgariad. Y droesdd fwyaf y gallai gwraig ei gyflawni oedd cyfathrachu a dyn arall ac nid ei gŵr. Pe gwnai hynny byddai'n cael ei gyrru o'i chartref gan ei gŵr, a'r dyn arall yn gorfod talu iawndal i'w gŵr am ddwyn ei wraig. Roedd cyfreithiau Cymru yn rhoi mwy o bwyslais ar iawndal na chosb. Roedd y teulu cyfan yn gyfrifol am ddrwg weithredoedd unrhyw aelod o'r teulu ac yn gorfod rhannu yr iawndal rhyngddynt.

Ar y nos Fawrth ganlynol daeth ein llywydd, Roderick, i'r adwy ar fyr rybudd oherwydd i Aled Roberts fethu dod atom i sôn am 'Hel Achau'. Clywsom hanes am ŵr 66 mlwydd oed o Blackburn yn darganfod am y tro cyntaf ei fod wedi ei fabwysiadu, hynny wedi gweld dogfennau mabwysiadol am ei fam biolegol oedd yn dod o ardal y Bala ac yn naturiol 'roedd eisiau olrhain ei hanes. Trwy waith ymchwil canfuwyd i'r fam fyw a marw yn Lerpwl o dan amgylchiadau trist a bod iddi ddau o feibion eraill. Aeth y stori ymlaen i olrhain hanes y teulu gyda diweddglo hapus i stori drist. Yr oedd y gynulleidfa wedi ei syfrdanu wrth glywed yr hanes.

Hwn oedd y cyfarfod olaf ond un am eleni. Yr ydym wedi cael tymor llwyddiannus a darlithoedd diddorol. Byddwn yn gorffen wedi'r Pasg gyda'r Cyfarfod Cyffredinol.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Cawsom wefr arbennig yn y cyfarfodydd pwysig a gynhaliwyd ym Methel ac yng Nghapel y Groes. Ar Sul Gŵyl Ddewi cymerodd Miss Iris Hughes Jones ran yn Oedfa Gŵyl Undebol y Glannau, ac yn lansiad *The Healer of Shillong*, medrodd Mrs Mair Rees Jones, Gwyn a Olwen Jones ein cynrychioli a Miss Iris Hughes Jones. Y mae'r gyfrol yn haeddiannol a derbyniol yn ein plith. Gwyddom y caiff oedfa ordeinio ein chwaer Mrs Morfudd Williams yng Nghapel y Groes, Wrecsam ei gofnodi yn y rhifyn hwn o'r *Angor*. Da hynny. Bu yn oedfa gymeradwy. Darllenwyd y Gair gan y Parch Eirlys Gruffudd. Gweddiwyd ar yr Ordeiniad gan Dr. D. Ben Rees. Cawsom berl o gyngor gan Llywydd Sasiwn y Gogledd, Parchedig Edwin Hughes. Llywyddwyd gan y Parchedig Huw Powell-Davies a'r Parchedig Robert Parry wrth yr organ. Ffodus ydym ohonynt a'u bod yn dod atom yn eu tro, wel o leiaf dri ohonynt!

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Daeth pen-wythnos Gŵyl ein nawddsant, ac fel arfer rydym yn cofio Dewi drwy ddathliad ysgafn ar nos Wener a gwasanaeth ar y Sul canlynol.

Croesawyd ni i ginio yng Ngwesty Grove House, Wallasey, gan ein llywydd y Parch Glenys Wilkinson, ac wedi mwynhau gwledd draddodiadol clywsom ganddi ychydig o hanes Dewi o'i blentyndod drwy ei fywyd o hunan aberth a'i weinidogaeth i Gymry ei oes. Deil neges Dewi am i ni fyw i ledaenu efengyl Grist drwy byw fel Ei esiampl Ef, i ofalu am eraill, i osod ein hunain o'r neilltu ac i dystiolaethu am y newyddion da. Mewn "pethau bychain" medrwn ddilyn cyngor Dewi ennill eraill at Grist mewn ffordd tawel, di-orchest.

Wedi seibiant i sgwrsio a hel atgofion cawsom adloniant gan "Tucsedos Blêr", pedwar a ddynion ifanc o Rhuthun ar cylch. Mae'r cantorion talentog yn boblogaidd iawn ac mae galw mawr amdanynt mewn cyngerddau, priodasau a nosweithiau llawen. Yn ogystal a chaneuon gwerin a chyfarwydd clywsom ganeuon a gyfansoddwyd gan aelod o'r parti, un i goffau priodas eu harweinydd, ac un i goffa geni plentyn i aelod arall. "Cawsom noson hwyliog, gartrefol hyfryd" oedd geiriau Mrs Mair Rees Jones wrth ddiolch i'r parti a diolch hefyd i Iola Edwards am drefnu'r noson, i Glenys am lywyddu, Terry am ofyn bendith, ac i staff y Grove House sydd bob amser yn groesawus i'r "Welsh Society Night".

Yr un geiriau gan Dewi a ddewisodd Glenys, oedd testun Ms Siân Morris Llanelwy yn y gwasanaeth yng nghapel Seion ar nos Sul: "gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i". Ond beth tybed o olygai yn y "pethau bychain".

Ceisiodd Siân ein harwain drwy gysylltu geiriau Dewi a geiriau'r Iesu yn yr efengylau. Yn efengyl Marc pennod chwech clywn yr Iesu yn annog ei ddisgyblion i fyw yn syml fel y gwnaeth Dewi "gyda ffon yn unig, dim bara, dim cod, dim arian a sandalau am eu traed." Pethau bychain syml sydd yn sumbol o ymrwymiad i waith Duw drwy gerdded ymlaen mewn ffydd. Trodd Dewi ei gefn ar fywyd moethus cyfforddus i ddilyn ei Arglwydd a phregethu iachawdwriaeth. Gan Luc cawsom hanes y ferch yngolchi traed yr Iesu a'i dagrau a'u sychu a'u gwallt, a Mair yn eistedd wrth ei draed a gwrando – y ddwy yn dangos eu ffydd yn y ffordd orau y medrent. Yn yr un modd gwelsom y weddw yn rhoi dwy hatling yn y drysorfa; peth bychan iawn ond o'i phrinder yn rhoi y cwbl oedd ganddi. Yn hytrach na chanolbwyntio ar bethau'r byd a byw'n hunanol, dylwn wasansaethu eraill yn ddistaw ac heb ymffrost fel mae'r apostol Paul yn ein cymell yn llyfr cyntaf Corinthiaid, pennod un deg tri, "heb fod gennyf gariad, nid wyf ddim".

Gwnaed casgliad at gapel Seion, Glenys oedd yn arwain, a Terry O'Neill yn cyfeilio.

---

Ychydig o gerddoriaeth a glywyd yn ein cyfarfodydd eleni ond ar nos Lun Mawrth 14 cawsom wledd arbennig yng nghwmi Mrs Lillian Garrett a'i ffrindiau - ei gŵr John, Mr Trefor Davies a Mr Glyn Morris. Mae'r cyfeillion hyn yn aelodau gweithgar a phrysur yng nghymdeithas Manceinion a phlesur oedd eu croesawu atom unwaith eto.

Mae Trefor a Glyn yn gantorion o fri ac yn ennillwyr Cenedlaethol. Mae Lillian yn gyfeilydd profiadol ac yn unawdydd ar offerynnau eraill yn cynnwys y ffliwt. Gyda John ar ei gitar clywsom drefniadau o alawon Cymreig ac arias operatig mewn cyfuniad swynol dros ben. Gyda Lillian yn cyfeilio, ac ambell dro gyda *keyboard* electronig, cawsom unawdau a deuawdau gan Trefor, y tenor, a Glyn y baswr, mewn rhaglen amrywiol, soniarus hyfryd dros ben yn cynnwys ffefrynau fel "Arafa Don", "Tosturi Duw", "Yr Hen Gerddor", "Y Llyn" ac yna yn ymestyn at ddetholiad operatig, gwaith gan Robat Arwyn a deuawd o drefniad Trefor o Alan Bet Middler "Rose" ar eiriau "Calon Lân".

Mynegodd Mrs Eira Hughes ein gwerthfawrogiad o noson hyfryd a phroffesiynol dros ben. Clywsom ddatganiadau o safon uchel iawn a fwynhawyd gan bawb.

## Noddfa Oaker Avenue, Manceinion

***Gŵyl Ddewi Manceinion 2016*** – Ar nos Sadwrn, Mawrth 5ed, daeth Cymry Manceinion at ei gilydd yng nghapel Noddfa Oaker Avenue i ddathlu Gŵyl ein nawddsant, Dewi. Roedd yr ystafell yn edrych yn hyfryd – y cennin Pedr yn adlewyrchu ein brwdfrydedd i gofio'r Ŵyl; a'r bwyd - yr hot-pot a'r deisen afalau – yn dderbyniol iawn. Ein gŵr gwadd eleni oedd Mr Hywyn Pritchard o'r Wyddgrug. Mae cysylltiadau Hywyn â Manceinion a Salford yn mynd yn ôl i'r amser pan oedd yn efrydydd ym mhrifysgol Salford ac yn mynychu y gweithgareddau Cymraeg. Da oedd clywed hanes ei yrfa, dros y byd, yn wir. Mae bellach wedi ymgartrefu yn y Wyddgrug ac yn flaenor yng nghapel Bethesda.

Ar ôl galw'r Siroedd, fel arfer, cafwyd cyngerdd o ddarlleniadau, adroddiadau, unawdau, deuawdau ac, wrth gwrs, gyd-ganu'r hen ffefrynnau Cymraeg. Mwynheuwyd y noson yn fawr serch inni weld colli rhai o'n ffyddloniaid oherwydd salwch. Balch ydym o fedru dod at ein gilydd, yn Gymry alltud, a chynnal noson mor gofiadwy.

***Dydd Gweddi Byd Eang*** – Fel pobl eraill yn ein gwlad a thrwy'r holl fyd, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig wedi ei baratoi gan ferched Ciwba ar Ddydd Gwener cyntaf mis Mawrth sef Ddydd Gweddi Byd-Eang y Merched. Y thema oedd 'Derbyniwch blant, derbyniwch fi' ac fel arfer roedd yr oedfa yn hardd iawn. Ar fore oer ym Manceinion a'r eira ar hyd y strydoedd, felly, daeth deg ohonom i gapel Cymraeg Noddfa Oaker Avenue i ddathlu'r gwasanaeth gyda'n gilydd, gan gynnwys dau ddyn! Roedd nifer wedi methu ymuno â ni y tro hwn oherwydd y tywydd neu waeledd, ond ein dymuniad pendant yw i barhau i fod yn ddolen yn y weddi, er yn ddolen fach.

Bu rhai ohonom yn ymuno hefyd mewn oedfaon yn ein hardaloedd lleol ac yn yr Eglwys leol yn Stretford, clywyd y darlleniad o'r Testament Newydd yn Almaeneg ac yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Yr un Ysbryd sydd ym mhlant Cymru ar ddydd y Neges o Ewyllys Da ym mis Mai, ac yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ym mis Gorffennaf ac mae yn nodwedd ohonom ni fel Cymry ein bod yn chwilio am frawdgarwch a chymod er mwyn creu harmoni yn y byd.

***Pregeth Gŵyl Ddewi*** – Diolch yn fawr i'r Parch Nesta Davies a ddaeth eto elen i fod yn gyfrifol am y gwasanaeth Cymraeg ar gyfer Gŵyl Ddewi i ni ym Manceinion. Roedd ganddi ddau gyfaill yn cynorthwyo y tro hwn wrth iddi ein hatgoffa o hanes bywyd Dewi Sant. Roedd yr arddull yn dangos sut mae ffyddloniaid yng Nghymru yn ymuno â'r cynllun 'Agor y Llyfr'i gyflwyno hanesion y Beibl i blant yr ysgolion cynradd a chawsom ni y wefr annisgwyl o weld yr hanes yn datblygu o flaen ein llygaid a'i actio gan Dewi (dyn ifanc o'r enw Dylan) a Non (mam Dylan ac yn athrawes gyda Nesta cyn iddi hi fynd i'r weinidogaeth). Daeth neges Dewi atom yn glir ac mae ein diolch yn fawr i'r criw bach a ddaeth yr holl ffordd o Gymru i ddathlu ein nawddsant gyda ni ar Ddydd Sul 6 Mawrth 2016. Diolch Nesta!

## HOMER YN HEPIAN

***Am ryw reswm anesboniadwy, anghofiwyd nodi mai rhifyn Ebrill oedd rhifyn olaf o'r Angor. Ac felly y rhifyn hwn yw rhifyn Mai a rhifyn olaf y flwyddyn. Ymddiheurwn am y gwall. – Gol.***

# Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

***Mawrth 6ed*** – Ar fore Sul y Mamau roedd hi'n oedfa Gŵyl Ddewi ym Methel o dan arweiniad ein gweinidog, y Parchedig Athro D. Ben Rees. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan aelodau o Bethania, Seion Penbedw a Bethel. Da oedd dod ynghyd i rannu'r bendithion gyda'n gilydd a chan ddiolch i'n gweinidog am drefnu ac am ei neges amserol i ddathlu Gŵyl ein nawddsant.

***Mawrth 7fed –*** Bu arwyl Mrs Edna Thomas, Argoed, Gateacre yn amlosgfa Anfield o dan ofal ein gweinidog ac ym mhresenoldeb ei theulu a chynrychiolaeth o Eglwys Bethel. Roedd yn wraig annwyl a siriol bob amser, a bu yn affaeliad mawr i Gapel Anfield Road.

Yn yr hwyr am 7.30 cafwyd darlith o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol gan Mr. Elwyn Evans, Manceinion ar y testun "Awn i Philadelphia yn y Bore".



***Elwyn Evans a sumbolau Philadelphia***

Gwahoddwyd ni fel cynulleidfa i fynd gyda fo ar daith ddychmygol drwy gyfrwng lluniau ar y sgrin. Cychwyn yn foreol o faes awyr Manceinion a'r hyn a'n tarawodd gyntaf wedi glanio oedd yr holl adeiladau enfawr sy' mor nodweddiadol o Philadelphia. Ers i Christopher Columbus lanio yn y byd newydd yn 1492 a hawlio iddo ddarganfod cyfandir yng ngogledd America, roedd y Cymry yn grediniol mai Madog oedd y cyntaf i hwylio a darganfod America dri chan nlynedd ynghynt yn 1170.

Yn yr ail ganrif ar bymtheg daeth stori Madog i'r wyneb a phan oedd bywyd yn anodd a chaled i'r Cymry, roedd gobaith am fywyd newydd tu hwnt i'r Iwerydd. Y bywyd hwn yn cynnig rhyddid crefyddol, safon bywyd gwell a chyfle am waith. Ffermwyr oedd y mwyafrif o'r ymfudwyr ar y dechrau, ond yn nes ymlaen bu mewnfudiad gan lowyr y De i feysydd glo Ohio a Phensylfania, ac aeth chwarelwyr llechi o Ogledd Cymru i Efrog Newydd a Delta yn Baltimore.

Bwriad William Penn oedd mynd a grŵp o Grynwyr i greu gwladfa yn gartref i'r Cymry Cymraeg. Cawn ddarlun o'r rhain yn nofel Marion Eames, y *Rhandir Mwyn*, hanes pobl y Bala a Llancyil, a chylch Dolgellau. Beth sydd ar ôl erbyn heddiw?

Sefydlwyd y *City Hall* yn 1792 i gofio am gyfraniad y Cymry ac arno mae cerflun o William Penn. Erbyn hyn ychydig yw'r nifer sy'n siarad Cymraeg, a mwy o rhai hynny sy â thras Gymreig. Deil y Cymry i gynnal y Gymanfa Ganu yn flynyddol a llawer yn trafeilio milltiroedd lawer i'w mynychu. Gelwir un sgwâr yn y ddinas - 'The city of brotherly love' - Dinas y cariad brawdol. Hir y pery felly.

Diolch i Elwyn a'i briod am ein hebrwng ar daith mor ddiddorol a'n hatgoffa o hanes y Crynwyr ymhell o'u gwlad. Diolch i Dr. Rees am groesawu'r ddau atom a'r diolch am noson o hanes cyfnod arbennig, a chafwyd gwledd ar y diwedd a daeth y Dysgwyr i'n plith i gymdeithasu.

***Nos Lun, Mawrth 21*** – Dyna gyfarfod olaf y tymor o'r Gymdeithas Lenyddol a buddiol oedd cael darlith ar y testun 'Myfyrdod y Pasg' gan Dr. Pat Williams â chyfraniad gwerthfawr a chaboledig gan Gantorion Bethel o dan arweiniad Mr. Ifor Griffith a Mrs Margaret Anwyl Williams. Agorwyd ein myfyrdod drwy weddi o lyfr newydd ein gweinidog Dr. D. Ben Rees *'Defosiwn y Pasg'*. Eglurodd Dr. Pat Williams paham mai gŵyl symudol yw'r Pasg. Gall gymryd lle ar ôl y dydd Sul cyntaf ar ôl y lleuad llawn, neu ar ôl y cyhydedd gwanwynol, felly o Fawrth 21ain hyd Ebrill 25. Mae llawer o drafod wedi bod yn arbennig eleni i gael dyddiad sefydlog fel y Nadolig. Yr Iddewon oedd yn gyfrifol am droi yr hen ŵyl baganaidd i ŵyl grefyddol sef y Pesach. Gŵyl oedd hon i gofio'r Israeliaid yn cael eu rhyddhau o'u caethiwed yn yr Aifft. Gwelwyd llun ar y sgrîn o fwyd arbennig fyddai'r Iddewon yn ei fwyta ar ddechrau Gŵyl y Pesach, a hynny ar ôl y seremoni o olchi dwylo. Roedd arwyddocad i'r holl fwyd oedd ar fwrdd y Seder, a rhai o'r eitemau a welwyd oedd y llysieuyn chwerw, ŵy, asgwrn oen, rhuddugl poeth a chymysgedd o afal, mêl, cnau a sinamon a gwin coch i'w yfed.

Fel y bu'r Iddewon yn yr anialwch am ddeugain mlynedd, bu'r Iesu hefyd am ddeugain dydd a deugain nos, a gwelsom lun o'r 'Tri Temptiad' gan Botticelli. Gwelsom gyfres o luniau o ddechrau'r wythnos sanctaidd hyd Sul y Pasg. Cychwyn y daith dan farchogaeth i Jerusalem ar ebol asyn a'r darlun o waith Norman Adams yn cyfleu hynny. Yna, datganiad gan y côr o'r emyn "Pwy sy'n dod i Salem dref?" Yr Iesu yn cyrraedd y Deml ac yn ei glanhau a darlun o waith James Tissot 'Puro'r Deml'. Yn dilyn hyn yr Iesu yn golchi traed y disgyblion a'r



***Lilian Coulthard yn paratoi i'r dysgwr, Dr. Colin McKean***



***Pedwar aelod o'r Côr - Wenna Evans, Glenys Johnson, Ben Hughes a Ted Clement-Evant***

darlun o hyn gan Ghislaine Howard, ac yna i'r Swper Olaf. Cafwyd dau ddarlun o'r achlysur hwn, un gan James Tissot a'r ail gan Nathan Simpson Graphic Artist. Y côr yn canu *Bara Angylion Duw* yn swynol. Ar ôl y swper aeth Iesu Grist a'i ddisgyblion i ardd Gethsemane – yr Iesu'n gweddio tra cysgai y disgyblion. Dangoswyd dau ddarlun o'r achlysur hwn, un gan yr artist o China, He Qi a'r llall gan Fra Angelico (1996).



*Sumbolau gwledd noson Dr. Pat Williams*

Cafwyd darlun o'r digwyddiad nesaf o Jwdas Iscariot yn bradychu'r Crist gan John Muafengejo, llun du a gwyn gydag ysgrifen arno. Aethpwyd â'r Iesu o flaen y Sanhedrin a gwelwyd darlun o Pedr yn gwadu'r Crist, hwn gan Peter Janssen. Yna ymddangosiad Crist o flaen Peilat. Darlun Ecce Homo gan Susie Hamilton (1950). Lluniau ac gefn seddau tacsi, lluchio paent ac yna defnyddio sychwr gwallt iddo fynd i bob cyfeiriad. Ymlaen wedyn i weld darlun o Grist yn cael ei wawdio gan Peter Rogers (1961) ac un o'r croeshoeliad gan Frances Hoyland (1962) o wahanol luniau o fewn un stori. Datganiad gan y côr "Wrth edrych Iesu ar dy groes". Yna, adroddiad o waith y bardd T. E. Nicolas ('Niclas y Glais'): "Pwy a groeshoeliodd Crist?" Mae'r darlun nesa yn perthyn i'r gadeirlan yn Lerpwl 'Y Bedd Gwag' (2008) gan Ghislaine Howard. Mae hwn yn cael ei arddangos mewn mannau gwahanol ond yn dod yn ôl i Lerpwl bob dwy flynedd. Yn olaf 'Yr Atgyfodiad' gan He Qi – angel yn cyhoeddi Crist atgyfoedidig. I derfynnu'r myfyrdod datganiad gan y Côr o'r Messiah "Fel trwy ddyn mae tranc".

Trwy gyfrwng darluniau modern eglurodd Dr. Pat Williams eu harwyddocâd. Darlith ddysgiedig o wir fyfyrdod ar yr wythnos sanctaidd gan arbenigwraig wrth ei gwaith. Diolch o galon iddi am y cyfan ac i'n gweinidog am lywio'r noson. Cafwyd gwledd arall yn dilyn, bwrdd yn llawn o ddanteithion yr ŵyl. Mawr yw ein diolch hefyd i Lilian Coulthard, Gwenfyl Bain a Carys Jones sydd mor weithgar o gyfarfod i gyfarfod.

*Ysgrif Goffa*

# Elizabeth Winifred Morris

**(1925-2016)**

**Llanddaniel Fab a Lerpwl**



**Ar 18 Mawrth 2016 yn Ysbyty Gwynedd o Llain yr Haf, Llanddaniel, bu farw Mrs Elizabeth Winifred Morris, mam a phriod a nain gyda'r anwylaf. Ganwyd hi yn 2 Amity Street ond fe gafodd fagwraeth yn 45 Borrowdale Road, Wavertree. Ar ôl yr ysgol bu mewn ffatri gwneud arfau ar gyfer yr Ail Ryfel Byd. Teulu o Faldwyn oedd ei theulu ar ochr ei thad a'i mam, a bu pedair cenhedlaeth o Gymry Cymraeg yn rhan o'r cartref yn Borrowdale Road. Cyfarfu â Chymro, Evan Griffith Morris, ac yntau yn filwr dewr yn y Royal Engineers. Mae ei hunangofiant yn adrodd y stori yn llawn.**

**Priodwyd hwy ym mis Mawrth 1946 yn Eglwys Anglicanaidd St. Bridget's a deg mlynedd a thriugain yn ddiweddarch cynhaliwyd gwasanaeth arwyl iddi a hynny ar fore Iau, 31 Mawrth o dan ofal y Ficer, y Parchedig Bill Sanders a minnau. Telais y deyrnged i'w choffadwriaeth. Yno y magwyd hi a'i mam yn un o'r ffyddloniaid mwyaf cywir ei cherddediad.**

**Symudodd y pâr ifanc yn ôl i Gymru ar ôl i'w priod gael gwaith ym Mangor gyda E. B. Jones. Yn ystod gaeaf mawr 1947 daeth yn ôl i nyrsio ei mam oedd yn ddifrifol wael. Bu yn Lerpwl am dri mis oherwydd yr eira a'r salwch. Yn ystod y cyfnod hwn bu farw ei mam a ganwyd iddi hi ferch Beryl, a bedyddiwyd hi yn eglwys St. Bridget. Ar ôl symud i Llanddaniel Fab gwnaeth gymwynasau lu, magu Beryl, Owen, John a Evan Wyn a chael pleser mawr yn yr wyrion a'r wyresau, Caren, Dafydd, Elisabeth, Leah, Mared, Sion, Rhys, Llyr, Arron, Nathan, Elsa a hefyd yn y gorwyrion.**


**Agorodd siop yn y pentref, hi a'i chwaer o Lerpwl, Margaret Noble, a daeth i'w hadnabod gan ardal gyfan fel Mrs Morris y Siop. Bu'n hynod o lwyddiannus, yn fam dda a phriod cefnogol a Christion ymroddedig. Derbyniodd gysur yn addoliad Eglwysi Anglicanaidd Llanedwen a Llanddaniel Fab.**

**Cynhaliwyd gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor o dan ofal y Canon Idris Thomas a bu'r rhoddion amdani tuag at Eglwys St. Bridget, Capel Bethel a phapur bro *Yr Angor.* Cofiwn amdani gydag anwyldeb.**

***D. Ben Rees***

# CORNEL Y TRYSORYDD

## MAI 2016



| | |
|---|---|
| Mrs Gwenda Roberts, Hen Golwyn | £20.00 |
| Mr Geraint Evans, Amlwch | £20.00 |
| Mr Michael Farnworth, Allerton | £11.00 |
| Er Cof am Mr Walter Rees Jones, Penbedw | £25.00 |
| Mr Dafydd Gwylon, Arberth | £15.00 |
| Rhodd Mr a Mrs Elwyn Evans, Manceinion | £30.00 |
| *(Darlith Cymdeithas Lenyddol Bethel)* | |
| Mrs Mair Nadolig Jones, Y Bala | £5.00 |
| **Cyfanswm** | **£126.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Coffâd*

# Mrs Edna Humphrey Thomas

**(1948-2016), Gateacre**

**Yr oedd gwreiddiau Mrs Edna Thomas yn ddwfn yn hanes Cymry Lerpwl. Hi a'i chwaer Dilys Owen oedd y drydedd genhedlaeth a braf oedd gwrando arni yn adrodd hanes Capel Cymraeg Anfield Road lle bu ei rhieni yn hynod o ffyddlon. Soniai bod ei nain wedi rhoddi blynyddoedd o lafur i'r ystafell genhadol eang a chysurus yn Smith Street, a adeiladwyd ar draul yr eglwys, ac a agorwyd yn 1914. Soniai fel ag y rhoddodd John Edwards sydd a'i enw yng nghwmni Roberts, Edwards and Worral, dŷ cenhadol yn gysylltiedig yr Ystafell. Byddai hi a'i chwaer yn mynd yn gyson o'i cartref yn Mauretania Road i Smith Street ac Anfield Road. Yno y gwelais i Mrs Thomas gyntaf erioed yn 1968 pan yn cymeryd oedfa. Gallaf ei gweld hi yn awr, yn wir gweld y tri person, gosgeiddig, hardd, wedi ei gwisgo'n dda yn cerdded i fewn i'r capel. Y tri Edna Thomas, a'i phriod Dr. Tudur Glyn Thomas a'i chwaer Dilys Owen, a phan ddaeth yr achos i ben yn 1974 braint oedd cael estyn deheulaw cymdeithas iddi hi a'i phriod. Un o Langefni ydoedd Dr. Thomas a phriodwyd hwy yn 1948. Bu ef yn feddyg teulu gwych yng nghanol y ddinas, Islington a Kensington, Anfield ac yn ofalus iawn o'r Cymry niferus oedd ar ei restr.**

**Symudwyd yn niwedd y chwedegau i Argoed, Rockbourne Avenue, a bu Edna Thomas yn fawr ei gofal o'r cleifion gan iddi gael hyfforddiant yn ei blynyddoedd cynnar fel nyrs. Cyfrannodd yn helaeth iawn i Gyngor Chwiorydd, Cyngor Eglwysi Rhyddion Lerpwl. Bu ar y Pwyllgor Gwaith am flynyddoedd, hi a Mrs Leah Clement-Evans, Mrs J. T. Hamilton a Mrs Elsie A. Smith. Rhoddodd oriau lawer i Gartref Henoed Sundale, a daliodd mewn cysylltiad â'i chyd-chwiorydd dros y blynyddoedd.**

**Roedd ganddi edmygedd mawr o Weinidogion a Blaenoriaid, a bu Mrs Nan Hughes Parry yn ofalus yn ei hymweliadau â hi gan ei bod yn rhan o'i Dosbarth Ymweld. Bu farw yn sydyn yn ei chartref ar 17 Chwefror a bur arwyl ar bnawn Llun, 7 Mawrth yn Amlosgfa Anfield lle y daeth nifer ynghyd i gydnabod ei chyfraniad gwerthfawr. Cydymdeimlir a'i theulu yn Bwcle, Sir y Fflint.**

**D. Ben Rees**

# PIGION O'R DYFFRYN



Mae amser yn hedfan ym mhrysurdeb dechrau'r flwyddyn newydd yma a ninnau'n mwynhau tywydd hyfryd. Dathlu gyda'n gilydd ar Fawrth y Cyntaf yn yr Hen Gapel Bethel Gaiman. Cyflwynwyd arian gan gwmni teledu Tinopolis i'w rannu rhwng Ysgol y Cwm Trevelin, Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol yr Hendre Trelew. Diolchwn i Emyr Penlan ac Elin Fflur am sicrhau fod rhodd hael yn dilyn eu sesiynau ffilmio ar gyfer y rhaglen 'Heno' yn ystod dathliadau 150 y Wladfa. Bu'n noson i ddymuno'n dda i Judith Jones a fydd yn ymadael am Gymru ac i groesawu'r athrawon newydd a fydd yn cydweithio gyda thiwtoriaid ac athrawon lleol. Roedd yr adloniant yn wefreiddiol yn ol yr arfer.

Ymunodd athrawon a disgyblion Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol yr Hendre i hybu 'Diwrnod Y Llyfr' ar draws y byd'

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu gynta'r Flwyddyn yng Nghapel Nazareth Drofa Dulog ar y 5ed o Fawrth lle cyflwynodd Marli Pugh lyfr diddorol am ei theulu oedd yn gysylltiedig a chapel Nazareth.

Braf gweld cynulleidfa luosog ar y 12fed o Fawrth yn ymuno i lawnsio CD 'Hogia'r Wilber' yn Nhy Te Tŷ Gwyn Gaiman.

Gwnaeth Katie Pritchard a Jessica Andrews fy nghyd weithwyr newydd o Gymru fwynhau'r profiad o gael cyfweliadau radio ar y rhaglen radio wythnosol gyda Luned Gonzalez.

Bron i fis yn llawn gweithgareddau a chyfleoedd i gymdeithasu'n braf gyda chyfeillion ac ymwelwyr o Gymru. Bu'r Athro Haydn Hughes o Brifysgol Bangor yn gaffaeliad mawr i ni gyd wrth iddo gyflwyno cyfres o wersi, sesiynau a gweithdai i blant, rhieni, oedolion, tiwtoriaid ac athrawon. Cafwyd ymateb gwych gan 12 o bobl yng Nghwrs Wlpan Madryn ac wrth sgwrsio gyda dysgwyr arbennig ar lefel uwch yno. Cynhaliwyd cwrs blasu tair awr yn Nhrelew a 30 o ddechreuwyr yn mynychu. Felly mae'n galonogol clywed fod tri dosbarth newydd yn cael eu creu ac fel canlyniad gwelwyd 15 o ddechreuwyr yn troi i fyny i ddosbarth nos. Roedd yn bleser ymuno mewn sesiynau arbennig i'r tiwtoriaid ac athrawon yn Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol yr Hendre Trelew. Cawsom sesiwn llawn hwyl hefyd gyda siaradwyr rhugl Dolavon a 4 o ddechreuwyr ifanc. Mawr ein diolch iddo.

Cafodd Bob Puw o Gaerdydd yr un croeso yma yn ystod ei ymweliad. Yntau'n cyflwyno cymaint o wybodaeth yn ei ddarlith 'Gadael yr Hen Wlad' - Un cyflwyniad yng Nghanolfan Diwylliant Gaiman a'r llall yn Neuadd Dewi Sant Trelew. Mor braf clywed am ei wreiddiau a fod ganddo cymaint o gysylltiadau â'r Wladfa o Ddyffryn Camwy a'r Andes, perthnasau lu yn bodoli yma sy'n cyfrannu yn gyson at y diwilliant Cymreig. Dymuniadau gorau i Haydn a Bob wrth ffarwelio a byddant yn sicr o gael yr un croeso yn yr Andes.

Bu Cinio Blynyddol Cymdeithas Dewi Sant Trelew yn Neuadd 'Abraham Mathews' yn llwyddiant ysgubol. Anhrydeddu Arie Lloyd de Lewis ac Orlando Lewis o Drofa Dulog am eu gwaith diflino dros y blynyddoedd a chyflwyno anrheg i Rebeca White i ddatgan diolch am ei gwaith fel cydlynydd dathliadau 2015. Diweddglo anghofiadwy i'r wythnos yma.



Cofiwch edrych ar gweplyfr Menter Patagonia am luniau ac adroddiadau.

*Cofion annwyl atoch i gyd o'r Dyffryn.*

*Eluned Jones.*




*Gateacre, Lerpwl*

### *Y REFFERENDWM BONDIGRYBWYLL*

*Annwyl Dr. D. Ben Rees*

Y "PAM' mwyaf, efallai yn ein hanes heddiw yw, pam mae yma angen i 'Lais y Wlad' benderfynu a yw yn well i fod y tu fewn neu alan o'r undeb Ewropeaidd.

Yn y ddadl sy'n berwi drosodd o'r ddwy ochr ymhlith y bobl gymerwn sydd yn ddoeth a synhwyrol, sut yn y byd, 'rydym ni – y cywion ieir sy'n crafu ymysg yr holl ansicrwydd – fel petai yn ein plu geni – i wneud i fyny ein meddwl, a dewis.

Yn fy marn i, yr aelodau seneddol ddylai gymeryd at y gwaith; maent wedi eu hethol i dderbyn y cyfrifoldeb, ac i barchu cais yr etholwyr, a hyn heb ormod o draul i'r wlad.

Yn ddiamau, erbyn y dyddiad ym mis Mehefin, bydd llawer wedi blino yn llwyr ar y dadlau brwd. Felly, rwyf yn barod i roddi her! Os bydd mwy na hanner cant yn y cant wedi fotio i un ochr neu'r llall, byddaf yn barod i drosglwyddo cant punt i gronfa'r Angor. Pam lai!

*Un sydd wedi cael digon yn barod*
*Yn gywir iawn*
*Ken Williams*

# *Ymweliad Ysgol Penboyr*

Fe gyrhaeddodd y parti o Ysgol Penboyr (13 o blant dan ofal tri o staff) am 12.30pm dydd Gwener. Aethom ar ein hunion i'r Gofeb a chael croeso mawr gan y ddynes ar y ddesg. Roedd braidd yn wyntog ond fe dynnais y llun yma o'r parti. Roeddynt dan ofal tri o staff yr ysgol, sef y Prifathro, Dr Carol James, Mrs Glenys Williams a Mrs Orion Brice. Wedyn aethom i'r Beatles Museum am rhyw ddwy awr er mawr fwynhad y plant, ac yn dilyn hyn aethom i'r Amgueddfa Forwrol i weld y model o'r Mimosa. Roeddynt yn gadael tua 4.30pm er mwyn bod nôl tua 9.30-10.00.

Lwcus eich bod wedi cyrraedd yn ôl o Aberystwyth cyn y gwynt mawr.

Cofion, *ArthurThomas*




*Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi / Merseyside Welsh Heritage Society*

(Registered Charity)

# O Lanrwst i Lerpwl - Teulu Nodedig David Roberts

Ar benwythnos **Mehefin 11-12, 2016** cynhelir Gŵyl i ddathlu cyfraniad David Roberts a'i ddisgynyddion, John Roberts A.S., David Trevor Roberts a John Herbert Roberts, A.S., Barwn Clwyd, i fywyd a datblygiad Lerpwl ac ar lwyfan cenedlaethol.

**RHAGLEN:**

***Sadwrn, Mehefin 11***

**10.00-11.15 –** Cyflwyniad a darlith gan Dr. D. Ben Rees ar 'Bywyd a Gwaith David Roberts, Hope Street a John Roberts, A.S., (1835-1895)' (yn Gymraeg ag anoddau cyfieithu ar y pryd).

**11.15-11.45** – Egwyl goffi

**11.45-1.00 –** 'Disgynyddion David Roberts' yn cynnwys David Trevor Roberts (1865-1935) a J. Herbert Roberts, A.S. (1863-1955) gan Lawrence Holden (yn Saesneg)

**Sadwrn: 7.30p.m.**

Cyngerdd yng Nghapel Elm Hall Drive gan Gôr y Porthmyn, Dyffryn Clwyd

**Dydd Sul, Mehefin 12: 10.30a.m.**

Gwasanaeth o Ddiolchgarwch yn Bethel dan arweiniad y Parchedig Dr. D. Ben Rees

***Cynhelir y cyfarfodydd yn y Ganolfan Gymraeg, Bethel, ac yng Nghapel Elm Hall Drive***

# CYMDEITHAS CYMRY MANCEINION



***John Eifion a Chôr y Brythoniaid, Gwennant Pyrs a Chôr Seiriol, a'r unawdwyr yn ymuno ar y diwedd i ganu'r Anthem Genedlaethol.***

Deugain mlynedd wedi cynnal ein cyngerdd yn y Coleg Cerdd am y tro cyntaf ym 1976, yn ôl y daethom eto eleni i gael mwynhau gwledd o gân. Pleser o'r mwyaf oedd cael croesawu Côr y Brythoniaid o dan arweiniad John Eifion, a Chôr Seiriol o dan arweiniad Gwennant Pyrs. Yr unawdydd o'r Coleg oedd Charlotte Trepess, soprano, gyda'i chyfeilyddes Rachel Fright, a da oedd cael clywed dwy delynores ifanc, sef Alice Roberts a Chloe Roberts, yn cymeryd rhan. Mae'r ddwy (nid dwy chwaer gyda llaw) yn astudio yn y Coleg Cerdd ac yn ddisgyblion i Eira Lynn Jones. Daeth y ddau gôr at eu gilydd ar y diwedd i ganu 'Mor fawr wyt ti', a dyna ddiweddglo ardderchog i noson gofiadwy.

***Elwyn Evans***



## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2016. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Mehefin 2016 –** erbyn bore Llun, 2 Mai, 2016 – neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive. fsnet.co.uk

**ii) Rhifyn Gorffennaf 2016** – erbyn bore Mawrth, 31 Mai, 2016 – y lluniau, adroddiadau etc.

**iii) Rhifyn Awst/Medi 2016 –** erbyn bore Gwener, 1 Gorffennaf, 2016 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn ar 2 Gorffennaf, 2016.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

# CANOLFAN GYMRAEG YR ANDES




*Annwyl Olygydd,*

Braf ydoedd clywed am agor Canolfan Gymraeg yng Nghaerdydd. O'r diwedd! Dylai hon wneud byd o wahaniaeth i Gymry'r Brifddinas, boed yn siaradwyr Cymraeg neu yn ddysgwyr. Adeilad amlbwrpas ar gyfer pobl o bob oed.

Fel yr athrawes gyntaf a fu'n gweithio yn yr Andes o dan y Cynllun Dysgu Cymraeg ga i ddweud mor falch y mae 'Cymry' Esquel o'u Canolfan hwythau. Pan gyrhaeddais i yno ym 1997 yr unig gyfle gaent i gymdeithasu oedd ar y Sul, a hynny ond yn achlysurol, gan mai dim ond rhyw bedair neu bum gwaith y flwyddyn yr agorai capel Seion ei ddrysau! Buan y newidiodd pethau ar ôl i mi gyrraedd oherwydd wrth dderbyn arweiniad bu yno addoli cyson.

Gwelais, er hynny, nad oedd gan yr Archentwyr hyn o dras Cymreig fodd i gwrdd â'i gilydd, i fwynhau nosweithiau llawen, i gynnal twmpath, i baratoi ar gyfer yr eisteddfodau nac i wylio'r tapiau fideo y byddent yn eu derbyn yn rheolaidd gan garedigion o Gymru. Codi Canolfan oedd yr unig beth amdani!

Dyma fynd ati i 'werthu brics' ar eu rhan - punt y fricsen! Yn Eisteddfod Penybont ar Ogwr ym 1998 i ddechrau ac yna yn Eisteddfod Môn, Llanelli a Thyddewi. Llythyru papurau bro, cymdeithasau o bob math, clybiau cinio a chorau. Derbyn rhoddion gan unigolion ledled Cymru. Trosglwyddo'r symiau arian gan gynnwys pob ffi am annerch hwnt ac yma i ofal pobl gyfrifol yn Esquel. Digon o bres i osod y sylfaen i ddechrau, gefngefn â'r capel, ac ymlaen nes bod digon i godi Canolfan braf a hynny gyda chydweithrediad y bobl draw heb anghofio'r gefnogaeth a gafwyd gan lywodraeth y Dalaith.

Llwyddwyd i agor y Ganolfan ym mis Mawrth 2002 ac erbyn hyn mae wedi agor ei drysau i gannoedd o ymwelwyr o Gymru ac wedi paratoi gwledd o fwyd ar eu cyfer. Ond nid croesawu ymwelwyr yn unig yw amcan y Ganolfan. Mae'r adeilad ar agor yn ddyddiol er mwyn cynnal dosbarthiadau Cymraeg i siaradwyr a dysgwyr o bob oed a chefndir. Ceir cegin fach yno lle bydd y tegell bob amser yn mudferwi ar gyfer cymryd tot o FATE! Yn y Ganolfan mae'r llyfrgell a'r ffilmgell. Dyma lle bydd y plant yn eistedd wrth draed eu hathrawon a'r bobl ifainc, trwy weithgareddau Menter Patagonia, yn cynnal twmpath ac yn cael hwyl ar actio a choginio. Dim rhagor o orfod llogi ystafell yma ac acw a neb yn gwybod yn union beth oedd yn digwydd.

Dim o'r fath oherwydd mae gan Gymry Esquel, bellach, eu haelwyd eu hunain.

Â'r adeilad bron â bod yn 14 oed mae galw am estyniad. Mae galw am ddwy ystafell ddosbarth, am swyddfa fechan, am 'departamento' ar gyfer yr athrawon a ddaw o Gymru ac i'r gwirfoddolwyr fydd yn cynnig eu gwasanaeth yn eu tro. Mae'r estyniad newydd ar ei hanner a does fawr o obaith cwblhau'r gwaith heb gymorth ariannol o Gymru. Derbyniwyd swm o arian tuag at y prosiect gan lywodraeth y Dalaith, ond mae hwn eisoes wedi'i wario! Disgynnodd y 'peso' yn ei werth ac mae costau byw ar ôl i'r llywodraeth newydd ddod i fod wedi mwy na dyblu.

Dyma fi, felly, unwaith eto yn cymryd y cyfrifoldeb o ofyn am gyfraniadau gan sefydliadau a chymdeithasau ac unigolion. Gwn fod galwadau lu arnom yng Nghymru y dyddiau hyn, ond os oes rhywun yn teimlo ar ei galon y gall gyfrannu swm o arian, boed fach neu fawr, a fyddwch mor garedig, os gwelwch yn dda, â chysylltu â mi. Mae cyfrif yn dal i fod ym Manc Lloyds, Rhydaman yn dwyn yr enw 'CANOLFAN GYMRAEG YR ANDES.'

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Hazel Charles Evans,*
*Llais yr Andes, Llandybïe, Rhydaman SA18 2TH*

Myfyrdod

# ELIN - gan Elwyn Parry

Bachgen bach o Gwm Rhondda ydw i a rhag ofn i chi feddwl mai erthygl daearyddiaeth sydd gennyf, dim o gwbl, ond testun diolch. Diolch i ardal a theuluoedd "Mount Pleasant" lle roeddwn yn byw yn y Porth. Cofiaf gydag anwyldeb tu hwnt am fy nwyn i fyny yn chwedl Llwyd o'r Bryn "Y Pethe".

Yn nymbar 4 roedd Elin Huws, ei merch Eirlys a'i gŵr Alf a thri o blant, a pan bu farw Elin "mamgu y stryd" am bedwar o'r gloch Gwener y Groglith roedd y llenni wedi eu tynnu ym mhob tŷ. Ar Sul y Pasg roedd Parch G. H. Jones, Blaenclydach yn pregethu yng nghapel Calfaria a dywedodd, am dri o'r gloch ar Gwener y Groglith pan dywyllwyd y nen bod Duw wedi tynnu'r bleind i lawr ac felly gyda'r annwyl Elin nymbar 4. Roedd yn gariadus dros ben. Roedd wedi dod i'r Rhondda o ardal Machynlleth ac roedd ei merch wedi priodi ag Alf, bachgen o Gorris William, John a Robert oedd y plant a dyna'r teulu yn ddedwydd braf. O, fe gawsant droeon yr yrfa ac roedd yn ddigon caled arnynt ond eu gwaith oedd dros y teulu ac roedd yn esiampl fawr a dyna oedd "cryfder y gymuned glos ym Mount Pleasant". Ei phregeth i'r stryd oedd "diolchwch ym mhob peth" a sylwch nid am bopeth.

Roedd cynhyrfiad un bore yn Nymbar 4 ar ôl i'r post alw achos roedd Elin wedi cael siec o'r "Clwb Pioneer". Roedd ar hyd y misoedd wedi bod yn cynilo o'i harian prin ac roeddynt am fynd lawr i'r '*Emporium*', siop Mr Webster, i gael dillad i'r plant. Heb air o gelwydd roedd yr *Emporium*, yn ôl rhai, yr wythfed ryfeddod y byd. Roedd pob dim yno a lan llofft oedd *"Eastern Promise"* ond i'r bobol ariannog yn unig!! Dysgodd Elin ei merch i brynu'n ddoeth a'r pethau gorau, siwt, a William yr hyna' oedd yn ei gwisgo'n gyntaf ac wedyn John ac yn olaf Robert a hyd yn oed wedyn doedd pethau ddim wedi gorffen fe wnaethpwyd mat carpiau, popeth er lles y teulu. Rydw wedi meddwl llawer ar hyd y blynyddoedd am fro mebyd yn y Porth, ac enwedig am Mount Pleasant a theulu Nymbar 4 "Mwynderau Maldwyn" yn y Rhondda.

Wrth eistedd yn fy stydi fach yn y fan hyn mae fy meddwl yn mynd yn ôl i bregeth gan y Parch Walter Jones, Bangor, (heddwch i'w lwch) pan yn atgoffa ni o weledigaeth yr EFENGYL. Wrth edrych ar yr hen fyd o un pen i'r llall onid ydym yn UN teulu? Pan edrychir ar holl adnoddau'r Greadigaeth mae'r Duw mawr wedi gofalu bod yna ddigon ar cyfer dynoliaeth y byd. Holl adnoddau natur, meddwl ac ysbryd yn eiddo dynoliaeth. Mae Mount Pleasant yn gwaeddi heddiw amaf fod pob trugaredd, pob gras, pob dawn yn eiddo pob teulu. Beth oedd gyfrinach Elin Huws Nymbar 4 meddech? Yn syml iawn Creadigaeth Duw yn gartref, Dynoliaeth yn blant iddo OND y peth pwysicaf o lawer Y CREAWDWR YN DAD. Ar adeg yma o'r flwyddyn wrth feddwl am y pedwar tymor – Hawddgarwch y Gwanwyn, Goleuni'r Haf, Ffrwythlondeb yr Hydref a Gorffwys y Gaeaf ond wedi dweud hyn does dim tymor i gymharu â chwmni'r Iesu'r Ceidwad, gyda Iesu'r Groes a'r Atgyfodiad a'r Gwaredwr tragwyddol yn feunyddiol . Fel y canwyd yn angladd Elin, "I ti dymunwn fyw, O Iesu da".


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514


# GWASANAETH ORDEINIO BLAENOR DEWR YR HENADURIAETH Y GOGLEDD DDWYRAIN

Ar nos Fercher, 23 Mawrth, o dan lywyddiaeth y Parchedig Huw Powell-Davies, Llywydd yr Henaduriaeth cafwyd oedfa arbennig i ordeinio blaenor dewr a llongyfarch tri blaenor arall. Ordeinwyd Mrs Morfydd Williams o Eglwys Seion, Penbedw. Cafodd ei 'hethol yn flaenor yn 2014 ond ni chafodd ei hordeinio y llynedd oherwydd anaf wedi damwain wrth deithio adref o un o bwyllgorau'r Henaduriaeth. Bu ei nai, Parch. Robert Parry ymddiddan â hi a chafodd ei hordeinio mewn cyfarfod arbennig yn yr hwyr gan y Parch Edwin Hughes, Llanbryn-mair sef Llywydd y Gymdeithasfa. Rhoddodd gyngor iddi, a'r gynulleidfa i gyd, drwy dynnu sylw at addewid anhygoel yr Iesu yn Efengyl Ioan 15:15 "Yr ydych chwi yn gyfeillion i mi os gwnewch yr hyn yr wyf fi'n ei orchymyn ichwi."

Cafwyd cyfle hefyd longyfarch a diolch i Mrs. Mary Roberts a Mr. Noel V. Parry (Capel y Rhos, Treuddyn) a Mrs. Lois Murphy (Noddfa, Oaker Avenue, Manceinion) am 40 mlynedd o wasanaeth di flino yn flaenoriaid yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru.



*Parch. Edwin Hughes yn derbyn Morfydd Williams fel blaenor*



*Parchedig Edwin Hughes yn rhoi y cyngor*




*Huw Powell-Davies yn amlinellu pwrpas y gwasanaeth ac enw'r person i'w ordeinio*



*Teuluoedd a'u ffrindiau yn llongyfarch y pedwar blaenor. (Chwith i'r dde Mrs. Mary Roberts, Mr. Noel V. Parry, Mrs. Morfydd Williams a Mrs. Lois Murphy)*

*Y lluniau o eiddo Dr. John G. Williams*

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*